

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

DEDDF Y CYMUNEDAU EWROPEAIDD 1972

RHEOLIADAU CYNHYRCHION SY'N DOD O ANIFEILIAID (MEWNFORION TRYDYDD GWLEDYDD) (CYMRU) 2007 (DIWYGIO)

AWDURDODIAD MEWNFORIO CYFFREDINOL

Mae Gweinidogion Cymru, drwy'r awdurdodiad hwn a gyflwynir yn unol â thelerau Rheoliad 4 Rheoliadau Cynhyrchion sy'n dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn awdurdodi cludo i Gymru'r cynnyrch canlynol, yn amodol ar ac yn unol â'r amodau a bennir isod:

Carcasau cyfan, rhannau o garcasau, organau, chwarennau, gwaed, tail, troeth neu hylifau corfforol eraill neu feinweoedd/deunyddiau sy'n deillio o'r nwyddau hyn o anifeiliaid o Deulu'r <i>Canidae</i>, Teulu'r <i>Felidae</i>, Urdd y <i>Rodentiae</i> ac Urdd y <i>Lagomorpha</i>* a anwyd ac a fagwyd mewn caethiwed ac nad ydynt wedi'u heintio, neu nad ydynt o dan amheuaeth o fod wedi'u heintio, â phathogenau anifeiliaid penodedig, ac y bwriedir eu defnyddio at ddibenion ymchwil, gwaith deiagnostig, profion a/neu addysg yn unig. Sylwer nad yw'r awdurdodiad hwn yn cynnwys semen, ofa ac embryonau hyfyw at ddibenion ffrwythloni artiffisial. * gweler nodyn 13	Cynnyrch
o	
Awstralia, Canada, Gwlad yr Ia, Norwy, Seland Newydd, Y Swistir ac Unol Daleithiau America	Gwledydd y tarddiad
wrth	
y ffin rhwng Cymru a Lloegr	Mannau mynediad

hyd nes ceir rhybudd pellach neu hyd nes i Weinidogion Cymru ddiddymu'r awdurdodiad.

Dyddiad: 2010

Swyddog yr Adran Materion Gwledig
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Yr amodau sydd ynghlwm wrth yr awdurdodiad hwn

1. Dim ond at ddibenion mewnforio i Gymru y gellir defnyddio'r awdurdodiad hwn, a hynny ar gyfer carcasau cyfan, rhannau o garcasau, organau, chwarennau, gwaed, tail, troeth neu hylifau corfforol eraill neu feinweoedd/deunyddiau sy'n deillio o'r nwyddau hyn (a elwir yn 'cynhyrchion' o hyn allan) o anifeiliaid o Deulu'r *Canidae*, Teulu'r *Felidae*, Urdd y *Rodentia* ac Urdd y *Lagomorpha* nad ydynt wedi'u heintio, neu nad ydynt o dan amheuaeth o fod wedi'u heintio, â phathogenau anifeiliaid penodedig, ac y bwriedir eu defnyddio at ddibenion ymchwil, gwaith deagnostig profion a/neu addysg yn unig.
2. Mae'r awdurdodiad hwn yn ddilys ar gyfer llwythi lluosog, ac ni all pwysau net y cynnyrch a fewnforiwyd fesul llwyth fod yn fwy na 15 kg.
3. Rhaid i bob llwyth gynnwys y canlynol:
 - copi o'r awdurdodiad hwn
 - dogfennau masnachol/cludo yn nodi enw a chyfeiriad y sawl sy'n anfon y llwyth, y sawl sy'n ei dderbyn, enw'r cynnyrch a faint sy'n cael ei anfon;
4. Rhaid i bob llwyth gynnwys datganiad (gweler nodyn 1) a lofnodwyd gan filfeddyg neu gyfarwyddwr y labordy/sefydliad allforio yn cadarnhau:
 - bod y cynhyrchion yn dod o anifeiliaid a anwyd ac a fagwyd mewn caethiwed ac a gadwyd ar wahân i anifeiliaid eraill na chawsant eu geni a'u magu mewn caethiwed.
 - nad yw'r cynhyrchion yn dod o anifeiliaid sydd wedi'u heintio neu sydd o dan amheuaeth o fod wedi'u heintio â phathogen anifeiliaid penodedig (e.e. y gynddaredd) a restrir gan Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008 fel y'i diwygiwyd.
 - nad yw'r anifeiliaid wedi cael eu cadw gydag anifeiliaid sydd wedi'u heintio â phathogenau anifeiliaid penodedig, neu sydd o dan amheuaeth o fod wedi'u heintio felly, ac nad ydynt wedi'u defnyddio mewn arbrofion yn cynnwys pathogenau byw a restrir yng Ngorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008 (gweler nodyn 9).
5. Rhaid i'r samplau gael eu storio mewn cyfleusterau sy'n bodloni lefel ynysu 2 yr ACDP, man lleiaf, a rhaid gweithio arnynt mewn cyfleusterau o'r fath.
6. **Ni ddylid** defnyddio'r awdurdodiad hwn ar gyfer sbesimenau o anifeiliaid sydd, neu a oedd, neu yr oedd amheuaeth eu bod, wedi'u heintio â phathogen anifeiliaid penodedig (gweler nodyn 9 am fwy o wybodaeth).
7. Rhaid labelu'r deunydd pacio allanol yn glir er mwyn nodi rhif awdurdodi cyffredinol y cynnyrch a fewnforiwyd. Dylai'r label nodi hefyd bod y deunydd i'w fewnforio i'r Deyrnas Unedig at ddibenion ymchwil.

8. Rhaid cadw'r cynhyrchion yn eu deunydd pacio gwreiddiol bob amser nes eu bod yn cyrraedd safle'r gyrchfan.
9. Rhaid cludo pob pecyn yn uniongyrchol o'r manau mynediad i'r DU i safle'r gyrchfan.
10. Ni ddylai'r llwyth na'i ddeunydd pacio ddod i gysylltiad ag unrhyw anifeiliaid cnoi cil, moch, dofednod neu geffylau.
11. Ni fydd unrhyw un o'r deunyddiau y mae'r awdurdodiad hwn yn cyfeirio atynt yn cael eu bwyta gan bobl o dan unrhyw amgylchiadau.
12. Ar ôl cwblhau'r ymchwil, gwaith deiagnostig, profion neu waith addysgol, rhaid i unrhyw weddillion o'r deunydd a'r hyn sy'n weddill o'r deunydd pacio gael eu llosgi'n ulw mewn safle sydd wedi'i gymeradwyo i waredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid (gweler nodyn 8), eu hawtoclaffio neu eu hail-allforio (gweler nodyn 11).
13. Os oes clefyd hysbysadwy/adroddadwy yn datblygu yn y wlad/gwledydd allforio, gall amodau'r awdurdodiad hwn newid. Os yw hynny'n digwydd, dylech gysylltu ag lechyd Anifeiliaid yn y cyfeiriad isod. Am fwy o wybodaeth am glefydau anifeiliaid ewch i:
<http://newydd.cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/disease/?lang=cy>
14. Os yw'r cynnyrch yn cael ei gyflenwi i sefydliad arall, mae'n rhaid i'r mewnforiwr hysbysu'r sawl sy'n ei dderbyn am yr angen i ddinistrio neu ail-allforio gweddillion y cynnyrch (gweler nodiadau 8 ac 11).
15. Rhaid i bob parti sy'n trin y cynnyrch gadw trywydd cofnodi/archwilio cyflawn. Ni ellir cyflenwi cynhyrchion i drydydd parti fel trafodyn masnachol o dan unrhyw amgylchiadau.
16. Os na allwch gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad ar unrhyw adeg; neu os canfyddir unrhyw bathogen anifeiliaid didrwydded yn y cynnyrch a fewnforiwyd, rhaid atal y gwaith ar unwaith a hysbysu'r Swyddfa Lechyd Anifeiliaid leol yn syth.
<http://www.defra.gov.uk/animalhealth/about-us/contact-us/search/>
17. Y mewnforiwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr unigolyn/unigolion sy'n anfon y cynnyrch i'r DU yn ymwybodol o amodau'r awdurdodiad hwn.
18. Rhaid i chi hysbysu'r Swyddfa Lechyd Anifeiliaid leol os ydych yn bwriadu defnyddio'r awdurdodiad hwn (gweler nodyn 12)
19. Dylid sicrhau bod unrhyw gynnyrch ac unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â'r cynnyrch a fewnforir o dan yr awdurdodiad hwn ar gael i'w harchwilio gan Swyddog Lechyd Anifeiliaid os oes angen mewn lle a enwir gan y swyddog hwnnw. Bydd y mewnforiwr neu ei asiant yn rhoi'r holl gymorth sydd ei angen ar y swyddog, fel y gall archwilio'r cynnyrch fel y gwél yn dda. Y mewnforiwr fydd yn gyfrifol am gostau archwiliad o'r fath.

NODIADAU

1. Gweler ein gwefan am arweiniad a thempled y datganiad.
2. Cyfrifoldeb y mewnforiwr yw sicrhau bod yr allforiwr yn darparu'r datganiad gofynnol y cyfeiriwyd ato uchod.
3. Os ydych chi am fewnforio'r cynhyrchion a restrir uchod, sy'n dod o anifail neu o wlad wahanol i'r rhai a enwir uchod, dylech gysylltu ag Iechyd Anifeiliaid yn y cyfeiriad isod.
4. Rhaid bodloni lefel ynysu 2 ar gyfer gwaith gyda chyfryngau biolegol sydd yng ngrŵp perygl 2. Rhaid i bersonél y labordy gael gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant addas a digonol mewn gweithio'n ddiogel â chyfryngau sydd yng ngrŵp perygl 2. Dylid goruchwyllo'r gwaith i safon uchel. Ceir mwy o wybodaeth yn:
<http://www.advisorybodies.doh.gov.uk/acdp/managingtherisks.pdf>
5. Nid oes unrhyw beth yn yr awdurdodiad hwn a fyddai'n eich eithrio rhag unrhyw waharddiad neu gyfyngiad a orfodir gan unrhyw ddeddf arall, gan gynnwys: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006, darpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a'r Rheoliadau a gyflwynwyd yn ei sgil, Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) 1995, Rheoliadau Awdurdodi Marchnata Cynnyrch Meddyginiaethol Milfeddygol 1994, Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, y Gymdeithas Trafnidiaeth Awyr Ryngwladol, y Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau mewn Perygl neu unrhyw reoliad sy'n disodli neu'n diwygio'r uchod.
6. Rhoddir yr awdurdodiad hwn o dan ddeddfwriaeth fewnforio sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid ac nid yw'n eich eithrio rhag gwaharddiad, rheoliad na chyfyngiad a roddir gan Adran o'r Llywodraeth neu Asiantaeth arall.
7. Sylwer bod amodau'r awdurdodiad hwn yn gyfredol adeg ei gyhoeddi, ond mae amodau awdurdodiad yn gallu cael eu newid yn aml a chynghorir mewnforyr i holi'r Tîm Mewnforio Iechyd Anifeiliaid am y sefyllfa ddiweddaraf (gweler isod).
8. Mae rhestr o safleoedd llosgi'n ulw cymeradwy ar gael ar wefan DEFRA:
<http://www.defra.gov.uk/foodfarm/byproducts/incinerators/index.htm>
9. Mae mwy o wybodaeth am fewnforio Pathogenau Anifeiliaid Penodedig ar gael ar wefan Defra yn:
<http://www.defra.gov.uk/foodfarm/farmanimal/diseases/pathogens/index.htm>
Mae copi o Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008 ar gael ar y wefan ganlynol: http://www.opsi.gov.uk/si/si2008/uksi_20080944_en_1 a'r diwygiad yn http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2008/wsi_20081270_we_1. Os oes unrhyw bathogenau yn bresennol, neu os oes amheuaeth eu bod yn bresennol, cyfrifoldeb y mewnforiwr yw cynnal asesiad risg a defnyddio cyfleusterau ynysu fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). COSHH yw'r gyfraith sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr rheoli sylweddau sy'n beryglus i iechyd. Gall defnyddio cemegau neu sylweddau peryglus eraill yn y gwaith beryglu iechyd pobl.

10. Mae'r awdurdodiad hwn yn ymwneud â chynhyrchion anifeiliaid yn unig. Os ydych chi am fewnforio anifeiliaid byw o'r rhywogaethau a restrir uchod, dylech gysylltu ag Iechyd Anifeiliaid yn y cyfeiriad isod.
11. Os yw'r cynnyrch yn cael ei ail-allforio, dylech sicrhau bod y wlad sy'n ei fewnforio yn caniatáu hynny a bod gennych y gwaith papur priodol ar gyfer y llwyth.
12. Mae'r trefniadau hysbysu'n destun arolwg ar hyn o bryd a gallent newid. Darllenwch y canllawiau am fwy o wybodaeth.
13. **Canidae** yw'r teulu biolegol o famaliaid cigysol a hollysol sy'n cynnwys bleiddiaid, cadnoid/llwynogod, siacaliaid, coyotes a chŵn dof.
Felidae yw teulu biolegol y cathod. Yr aelod mwyaf cyfarwydd o'r teulu hwn yw'r gath ddof, ond mae'n cynnwys pob cath wyllt arall gan gynnwys y cathod mawr.
Rodentia yw urdd y mamaliaid hynny sydd hefyd yn cael eu galw'n gnofilod. Nodweddir hwy gan ddau ddant blaen yn yr ên uchaf ac isaf sy'n tyfu drwy'r amser, ac sy'n golygu bod yr anifail yn gorfod cnoi er mwyn eu cadw'n fyr. Ymysg y cnofilod mwyaf cyffredin mae llygod, llygod mawr, gwiwerod, porciwpeinod, afancod, moch cwta a llygod pengrwn.
Lagomorpha yw'r urdd o famaliaid sy'n cynnwys dau deulu y *Leporidae* (ysgyfarnogod a chwningod) a'r *Ochotonidae* (pikas)

RHYBUDD

Cyfrifoldeb y mewnforiwr yw sicrhau bod unrhyw beth a fewnforir sy'n perthyn i'r awdurdodiad hwn yn cydymffurfio â'r amodau a'r telerau fel y'u nodir.

Os ydych yn torri unrhyw un o'r amodau sy'n gysylltiedig â'r awdurdodiad hwn, byddwch yn troseddu yn erbyn Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

MANYLION CYSWLLT I GAEL MWY O WYBODAETH

Swyddfa Ranbarthol Iechyd Anifeiliaid
Tîm Mewnforio Iechyd Anifeiliaid
Beeches Road
Chelmsford
Essex
CM1 2RU

Ffôn: 01245 454860

Ffacs: 01245 351162

e-bost: APIChelmsford@animalhealth.gsi.gov.uk